**CYNGOR CAERDYDD**
**CARDIFF COUNCIL**

COFNODION

CYFARFOD CABINET: 14 RHAGFYR 2017

| | |
|---|---|
| Aelodau Cabinet yn Bresennol: | Y Cynghorydd Huw Thomas (Arweinydd)<br>Y Cynghorydd Peter Bradbury<br>Y Cynghorydd Susan Elsmore<br>Y Cynghorydd Russell Goodway<br>Y Cynghorydd Graham Hinchey<br>Y Cynghorydd Sarah Merry<br>Y Cynghorydd Michael Michael<br>Y Cynghorydd Lynda Thorne<br>Y Cynghorydd Christopher Weaver<br>Y Cynghorydd Caro Wild |
| Gwylwyr: | Y Cynghorydd Joe Boyle<br>Y Cynghorydd Keith Parry<br>Y Cynghorydd Adrian Robson |
| Swyddogion: | Paul Orders, y Prif Weithredwr<br>Christine Salter, Swyddog Adran 151<br>Davina Fiore, Swyddog Monitro<br>Joanne Watkins, Swyddfa'r Cabinet |
| Ymddiheuriadau: | |

57 **COFNODION Y CYFARFOD CABINET A GYNHALIWYD AR 16 TACHWEDD**

**PENDERFYNWYD: cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Rhagfyr 2017**

58 **CYFLAWNI UCHELGAIS PRIFDDINAS**

Ystyriodd y Cabinet adroddiad a amlinellwyd trefniadau i gefnogi'r gwaith o gyflawni datganiad blaenoriaethau Uchelgais Prifddinas y Cabinet. Roedd yn yr adroddiad fanylion am raglen gyflawni pedair blynedd a rhaglen dreiglol o adolygiadau hanfodol i sicrhau bod gwasanaethau'r Cyngor yn cael eu cyflunio a'u moderneiddio'n briodol. Cylchredwyd y llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Craffu Adolygu Polisi a Pherfformiad i'r Cabinet.

**PENDERFYNWYD:**

1. Cymeradwyo sefydlu a gweithredu 'Rhaglen Gyflawni Uchelgais Prifddinas' pedair blynedd, gan gynnwys y projectau a'r mentrau a fydd yn cyflymu'r gwaith o foderneiddio gwasanaethau'r Cyngor ac arbed arian yn unol â blaenoriaethau'r Weinyddiaeth

2. dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Datblygu Economaidd, mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet dros Fuddsoddi a Datblygu, i ddatblygu achos busnes ar gyfer cyflwyno trefniadau newydd a fydd yn sicrhau bod y Cyngor yn gweithio o safleoedd modern, cost-effeithiol ac addas at y diben;

3. dirprwyo awdurdod i'r Prif Weithredwr, mewn ymgynghoriad ag Arweinydd y Cyngor, i ddatblygu cynigion y Cyngor ar gyfer cyd-weithredu, gan gynnwys yr achos busnes ar gyfer darparu gwasanaethau gweithrediadol yn rhanbarthol;

4. gweithredu rhaglen dreigl o Adolygiadau Hanfodol i sicrhau bod gwasanaethau'r Cyngor yn cael ei chyflunio yn y ffordd orau posibl;

5. cymeradwyo dechrau adolygu gwasanaethau TGCH y Cyngor yn syth, gan gynnwys caledwedd, meddalwedd ac adnoddau, wedi arwain gan y Prif Weithredwr, mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet dros Gyllid, Moderneiddio a Pherfformiad, er mwyn tanseilio'r gwaith llwyddiannus o weithredu agenda Digidol y Cyngor;

6. awdurdodi'r Prif Weithredwr i ail-ddyrannu adnoddau staff o fewn y fframwaith cyllidebol ar gyfer 2017/18 i roi blaenoriaeth i'r cynigion a amlinellwyd yn yr adroddiad.

**CAIS I GODI PRIS CERBYD HACNI**

Ystyriodd y Cabinet adroddiad yn cynnwys manylion am gais gan Dragon Taxis i amrywio prisoedd cerbydau hacni yng Nghaerdydd. Cynigiwyd y cais gynnydd yn y pris ar gyfer y 103 llathen gyntaf o 20c i £2.50 ac ar ôl 103 llethen, codir 20c am bob 195 llethen, sy'n lleihad o 207 llethen. Nodwyd y byddai'r cynnydd arfaethedig yn destun hysbysiad cyhoeddus yn y papur newydd lleol.

**PENDERFYNWYD:**

1. nodi'r materion a'r effeithiau ar brisoedd tacsi yn yr adroddiad

2. cymeradwyo'r cais a gyflwynwyd gan Dragon Taxis a fydd yn dod i rym ar 1 Chwefror 2018 (ar yr amod na dderbynnir unrhyw wrthwynebiadau)

3. cymeradwyo hysbysiad o'r amrywiad mewn papur newydd lleol

**60 BLAENORIAETHAU BAND B CYNGOR CAERDYDD - YSGOLION YR 21AIN GANRIF**

*Datganodd y Cynghorydd Bradbury fuddiant personol fel Llywodraethwr yn Ysgol Ty Gwyn*

*Datganodd y Cynghorydd Elsmore fuddiant personol gan fod Ysgol Uwchradd Fitzalan wedi'i lleoli yn ei ward hi.*

*Datganodd y Cynghorydd Merry fuddiant personol gan fod Ysgol Uwchradd Cathays wedi'i lleoli yn ei ward hi.*
*Datganodd y Cynghorydd Thomas fuddiant personol fel Llywodraethwr yn Ysgol Uwchradd Willows*
*Datganodd y Cynghorydd Weaver fuddiant personol fel Llywodraethwr yn Ysgol Uwchradd Cathays*
*Datganodd y Cynghorydd Wild fuddiant personol fel Llywodraethwr yn Ysgol Uwchradd Cathays*

Derbyniodd y Cabinet adroddiad yn cynnwys manylion am y cynlluniau blaenoriaeth i'w gwneud yn rhan o raglen ysgolion yr 21ain ganrif Band B Caerdydd. Nodwyd ei fod wedi'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru trwy ddefnyddio methodoleg wedi'i alinio i amcanion strategol Llywodraeth Cymru a chan fod cyllid ond ar gael i fynd i'r afael â'r materion cyflwr a digonedd mwyaf acíwt yng Nghaerdydd, nodwyd yr ysgolion y mae angen buddsoddiad arnynt mwyaf.

**PENDERFYNWYD:**

1. cymeradwyo'r cynlluniau wedi'u blaenoriaethu dan Fand B Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif

2. nodi bod Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo mewn egwyddor Achos Amlinellol Strategol Band B Cyngor Caerdydd ac awdurdodi'r Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes i sicrhau cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru mewn egwyddor ar gyfer y cynlluniau sy'n rhan o'r rhaglen.

3. bydd adroddiad canlyniadol i'r Cabinet yn cynnig trefniadau i sicrhau capasiti digonol a llywodraethu priodol er mwyn cyflawni Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif Band B Caerdydd.

61 **CYFRIF SYLFAEN Y DRETH GYNGOR**

Derbyniwyd adroddiad yn amlinellu cyfrifiad sylfaenol y Dreth Gyngor ar gyfer 2018/19. Nodwyd y fethodoleg a ddefnyddiwyd i gyfrif sylfaen y Dreth Gyngor a thybiodd gyfradd gasglu o 98.5%.

**PENDERFYNWYD:**

(1) cymeradwyo cyfrifiad sylfaen y Dreth Gyngor ar gyfer y flwyddyn 2018/19;

(2) yn unol â'r adroddiad hwn ac yn unol â Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrif Sylfaen Treth) (Cymru), fel y'u diwygiwyd, 143,453 fydd y swm a gyfrifwyd gan Gyngor Caerdydd fel ei Sylfaen Treth Gyngor ar gyfer y flwyddyn 2018/2019

(3) yn unol â'r adroddiad hwn ac yn unol â Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrif Sylfaen Treth) (Cymru), fel y'u diwygiwyd, bydd y symiau a gyfrifwyd gan Gyngor Caerdydd fel y Sylfaen Treth Gyngor ar gyfer y flwyddyn 2018/2019 yn y cymunedau yn amodol ar braesept fel a ganlyn:-

| | |
|---|---|
| Llys-faen | 2,350 |
| Pentyrch | 3,263 |
| Radur | 3,709 |
| Sain Ffagan | 1,311 |
| Pentref Llaneirwg | 1,543 |
| Thongwynlais | 823 |

(4) y telir praeseptau yn 2018/19 i Awdurdod Heddlu De Cymru trwy randaliadau cyfartal ar ddiwrnod gwaith olaf pob mis o fis Ebrill 2018 tan fis Mawrth 2019 a thelir y rhai i'r Cynghorau Cymuned trwy un taliad ar 1 Ebrill 2018, ac y byddant ar yr un sail a ddefnyddiwyd yn 2017/18 ac y rhoddir gwybod i awdurdodau praeseptu yn unol â hynny.

## 62 RHEOLI RISGIAU CORFFORAETHOL - SEFYLLFA GANOL Y FLWYDDYN 2017/18

Ystyriwyd y gofrestr o risgiau corfforaethol gan y Cabinet. Amlinellodd y risgiau strategol sy'n wynebu'r Cyngor a'r camau lliniaru sydd ar waith. Adroddwyd bod risg ynghylch 'Ansawdd Aer' wedi'i ychwanegu at y Gofrestr o Risgiau Corfforaethol.

**PENDERFYNWYD:** nodi cynnwys y Gofrestr o Risgiau Corfforaethol a'r gwaith parhaol o ddatblygu dulliau rheoli risgiau yn y Cyngor

## 63 CAFFAEL CYNLLUN ADEILAD NEWYDD YN HEN ADEILAD WALTERS, BUTETOWN AR GYFER TAI CYNGOR

*Ni chyhoeddir Atodiadau 2 a 3 yr adroddiad hwn gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth o'r math a ddisgrifir ym Mharagraff 14 Rhan 4 a pharagraff 21 Rhan 5 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.*

*Eithriwyd y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod tra bod yr eitem hon yn cael ei thrafod*

Ystyriodd y Cabinet wneud bargen pecyn gyda Chymdeithas Tai Cadwyn, i adeiladu 50 fflat Cyngor i'w rhentu a fyddai'n helpu i fwrw targed y Cyngor o adeiladu o leiaf 1000 o gartrefi Cyngor newydd ymhen 5 mlynedd.

**PENDERFYNWYD:** dirprwyo awdurdod i Gyfarwyddwr Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid i wneud cytundeb gyda Chymdeithas Tai Cadwyn, ar gyfer adeiladu 50 fflat newydd yn amodol ar gytuno ar Benawdau Telerau gan gynnwys yr holl gymeradwyaeth dichonoldeb a diwydrwydd dyladwy.